Cyllid & Tollau EM

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Cwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth** | SEN1 |
| • Darparu manylion incwm a threuliau | SEN2 |
| • Ffigurau dros dro | SEN3 |
| • Amcangyfrifon (gan gynnwys prisiadau) | SEN3 |
| ***Manylion busnes*** | SEN3 |
| • Eich cyfnod sail ar gyfer 2006-07 | SEN3 |
| ***Lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli*** | SEN4 |
| ***Incwm a threuliau – trosiant blynyddol o dan £15,000*** | SEN4 |
| ***Incwm a threuliau – trosiant blynyddol o £15,000 neu fwy*** | SEN4 |
| • Treth Ar Werth (TAW) | SEN4 |
| • Incwm gwerthiant/busnes (trosiant) | SEN6 |
| • Treuliau busnes | SEN6 |
| • Incwm/elw arall | SEN6 |
| • Gwybodaeth ychwanegol | SEN7 |
| ***Addasiadau treth i elw neu golled net*** | SEN7 |
| ***Addasiadau er mwyn pennu elw trethadwy neu golled*** | SEN7 |
| • Rhyddhad gorgyffwrdd | SEN7 |
| ■ ***Treuliau anghaniataol*** | SEN8 |
| ■ ***Cyfanswm y treuliau*** | SEN8 |
| **Cyfraniadau Yswiriant Gwladol** | SEN9 |
| **Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2** | SEN9 |
| ***Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4*** | SEN10 |
| ***Isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu*** | SEN10 |
| ***Treth a ddidynnwyd o incwm masnachu*** | SEN11 |
| ***Crynodeb o'r fantolen*** | SEN11 |
| **Masnachau arbennig ac ati** | SEN11 |
| **Rhestr termau** | SEN12 |


## TAFLENNI CYMORTH

Mae Taflenni Cymorth sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth penodol ar gyfer hunangyflogaeth ar gael o'r Llinell Archebu, neu ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk**

- *SA/BK 4: Hunanasesiad – canllaw cadw cyfrifon ar gyfer yr hunangyflogedig*
- *IR220: More than one business*
- *IR222: How to calculate your taxable profits*
- *IR223: Rent a Room for traders*
- *IR224: Farmers and market gardeners*
- *IR227: Losses*
- *IR229: Information from your accounts*
- *IR231: Doctors' expenses*
- *IR232: Farm stock valuation*
- *IR234: Averaging for creators of literary or artistic works*
- *IR236: Foster carers and adult placement carers*
- *IR238: Revenue recognition in service contracts UITF40*

## Cwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth os gwnaethoch, ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth 2006-07, gyflawni masnach, proffesiwn neu alwedigaeth fel person hunangyflogedig yn y DU neu dramor. Os oeddech yn Enw yn Lloyd's, cwblhewch y Tudalennau Tanysgrifenwyr Lloyd's yn lle hynny. Os oeddech yn aelod o bartneriaeth, cwblhewch y Tudalennau Partneriaeth yn lle hynny.

Dylech gael y deunydd sydd ei angen arnoch i gwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth sef:

- eich cyfrifon busnes sy'n cwmpasu eich cyfnod sail ar gyfer y flwyddyn dreth 2006-07 (eglurir y cyfnod sail ar dudalen SEN3)
- eich llyfrau a'ch cofnodion, os nad oes gennych gyfrifon.

Dylech gadw cofnodion o'ch holl drafodion busnes. Mae'n rhaid i chi gadw'r rhain tan o leiaf 31 Ionawr 2013 rhag ofn y byddwn yn gofyn am eu gweld.

Os ydych wedi bod mewn busnes ers rhai blynyddoedd ac os yw'ch dyddiad cyfrifo yr un dyddiad â'r llynedd, yna eich cyfnod sail fydd y cyfnod cyfrifo sy'n dod i ben yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2007. Dylech ddefnyddio'r wybodaeth o'r cyfnod cyfrifo hwn i gwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth.

Os ydych newydd ddechrau mewn busnes, gallwch lunio'ch cyfrifon hyd at unrhyw ddyddiad cyfleus ond efallai y gwelwch fod defnyddio 5 Ebrill, sef diwedd y flwyddyn dreth, yn gwneud eich cyfrifiadau'n haws.

Efallai y bydd yn rhaid i chi gwblhau mwy nag un set o Dudalennau Hunangyflogaeth os yw'r **naill neu'r llall** o'r amgylchiadau canlynol yn gymwys:

- nid oes gennych un set o gyfrifon ar gyfer y cyfnod a elwir eich cyfnod sail ar gyfer 2006-07. Gallai hyn ddigwydd os dechreuodd eich busnes neu os gorffennodd eich busnes yn ddiweddar neu os ydych wedi newid eich dyddiad cyfrifo. Gweler y nodiadau ar dudalennau SEN2 ac SEN3 sy'n esbonio sut i weithio allan eich cyfnod sail a'r wybodaeth am gyfrifon y mae'n rhaid i chi ei darparu, **neu**
- os oedd gennych fwy nag un busnes – mae'n rhaid i chi gwblhau Tudalennau Hunangyflogaeth ar wahân ar gyfer pob un. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR220: More than one business*. Mae'n cynnwys taflen waith i ymdrin â'r rheolau arbennig ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 yn y sefyllfa hon.

Os oes gennych un set o gyfrifon sy'n cwmpasu mwy nag un busnes, dylech yn gyntaf drosglwyddo'r ffigurau i un set o Dudalennau Hunangyflogaeth. Yna didynnwch yr incwm a hepgorwch y treuliau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fusnes heblaw eich prif fusnes, a'u cynnwys mewn set o Dudalennau Hunangyflogaeth ar wahân ar gyfer pob un o'ch busnesau eraill.

Dim ond manylion sy'n berthnasol i'r hunangyflogaeth honno y dylech eu cynnwys yn y Tudalennau Hunangyflogaeth. Dylai incwm arall gael ei nodi yn rhannau priodol eich Ffurflen Dreth. Er enghraifft, nodwch:

- incwm partneriaeth yn y Tudalennau Partneriaeth ond gweler y nodyn ar dudalen SEN3 ynglŷn â newid rhwng hunangyflogaeth a phartneriaeth
- incwm a enillwyd fel gweithiwr neu gyfarwyddwr cwmni yn y Tudalennau Cyflogaeth
- difidendau o gwmnïau ym mlychau 10.15 i 10.17 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth.

Os ydych yn ansicr a yw eich gweithgareddau'n gyfystyr â masnach, proffesiwn neu alwedigaeth, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth am gyngor.

SA103 (Nodiadau) (Cymraeg)

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

Cysylltwch â ni (neu'r Llinell Gymorth pan fydd y swyddfa ar gau) am gyngor ynglŷn â chwblhau eich Ffurflen Dreth, os oeddech yn adeiladwr a dywedwyd wrthych gan y person (neu'r busnes) yr oeddech yn gweithio iddo:

- nad oeddech yn hunangyflogedig ar gyfer contract arbennig; **ac**
- ers hynny didynnwyd treth o'ch cyflog o dan Talu Wrth Ennill (TWE).

Darllenwch y nodiadau ar dudalennau SEN7, SEN9 a SEN11 cyn cwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth os ydych:

- yn awdur neu'n artist, **neu'n**
- ffermwr neu'n arddwr masnachol, **neu**
- os ydych yn ofalwr maeth neu'n ofalwr oedolion, darllenwch dudalen SEN11.

Os yw eich masnach yn golygu darparu llety wedi'i ddodrefnu yn eich unig neu eich prif gartref, gall Rhentu Ystafell fod yn gymwys. Gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR223: Rent a Room for traders.*

### *Cyn i chi ddechrau*

Rydych yn talu treth ar gyfer 2006-07 ar holl elw eich busnes (gweler tudalen SEN9 os gwnaethoch golled) ar gyfer y cyfnod sail.

Elw'r busnes ar gyfer pob busnes yw'r gwahaniaeth rhwng:

- eich trosiant, derbyniadau busnes eraill, taliadau mantoli a gwerth y nwyddau a gymerwyd at ddefnydd personol, **a**
- treuliau busnes caniataol (gan gynnwys lwfansau cyfalaf).

Bydd y Tudalennau Hunangyflogaeth yn eich helpu i gyfrifo elw trethadwy eich busnes a bydd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnaf i brosesu eich Ffurflen Dreth.

Ar gyfer pob busnes mae'n rhaid i chi:

- darparu manylion y busnes ym mlychau 3.1 i 3.13
- cwblhau blychau 3.14 i 3.23 os cynhwysir lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli ym mlychau 3.25 a 3.24 neu 3.70 a 3.68. Rhowch fanylion incwm a threuliau ym mlychau 3.24 i 3.26 os yw eich trosiant blynyddol o dan £15,000, neu ym mlychau 3.27 i 3.73 os yw eich trosiant blynyddol yn £15,000 neu fwy.
- cyfrifo eich elw trethadwy ar Dudalen SE3, gan ddefnyddio blychau 3.74 i 3.93
- cwblhau blychau 3.94 i 3.98, fel y bo'n briodol
- os oes gennych fantolen, rhowch wybodaeth am eich asedion neu rwymedigaethau eich busnes ym mlychau 3.99 i 3.115.

Gweithiwch drwy'r camau canlynol ar gyfer pob busnes:

**Cam 1** Cyfrifwch y cyfnod sail ar gyfer eich busnes drwy ddefnyddio'r nodiadau ar dudalen SEN3 neu *Taflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.*

**Cam 2** Cyfrifwch faint o 'gyfrifon' sy'n disgyn o fewn y cyfnod sail hwnnw.

**Cam 3** Cadarnhewch a wnaethoch ddarparu manylion unrhyw un o'r 'cyfrifon' hyn ym mlychau 3.14 i 3.73 a blychau 3.99 i 3.115 ar Ffurflen Dreth y llynedd. Os felly, nid oes angen i chi ddarparu'r un wybodaeth eto. Ticiwch flwch 3.10 os ydych eisoes wedi cynnwys **holl** fanylion y cyfrifon hyn yn Ffurflen Dreth y llynedd.

**Cam 4** **Os mai dim ond un set o gyfrifon ar gyfer y cyfnod sail sydd gennych**, cwblhewch un set o Dudalennau Hunangyflogaeth ar gyfer eich cyfnod sail cyfan oni bai eich bod eisoes wedi darparu'r wybodaeth hon ar Ffurflen Dreth y llynedd. Mae'n rhaid i chi gwblhau blychau 3.74 i 3.93 ar Dudalen SE3 bob amser, fel y bo'n briodol, er mwyn pennu eich elw trethadwy ar gyfer 2006-07.

NEU

**Os oes gennych fwy nag un set o gyfrifon ar gyfer y cyfnod sail**, cwblhewch flychau 3.1 i 3.73 a 3.99 i 3.115, fel y bo'n briodol, ar Dudalennau Hunangyflogaeth ar wahân ar gyfer pob set o gyfrifon. Nid oes angen i chi ailadrodd unrhyw wybodaeth am unrhyw gyfnod cyfrifo a ddarparwyd gennych ar Ffurflen Dreth y llynedd. Yna cwblhewch flychau 3.74 i 3.93, fel y bo'n briodol, ar y Tudalennau Hunangyflogaeth ar gyfer y set ddiweddaraf o gyfrifon er mwyn pennu eich elw trethadwy ar gyfer 2006-07. Dylech gwblhau blychau 3.94 i 3.98 hefyd, fel y bo'n briodol, ar gyfer y cyfrifon mwyaf diweddar.

Bydd y Nodiadau yn eich helpu. Maent yn defnyddio rhai termau technegol fel 'masnach', 'cyfnod sail' ac yn y blaen. Maent yn esbonio'r termau hyn gymaint â phosibl, ond nid ydynt yn ganllaw cynhwysfawr ar gyfer pob achos. Mae rhestr termau ar gael hefyd ar dudalen SEN12.

- Darparu manylion incwm a threuliau

Bydd yr wybodaeth ar y Tudalennau Hunangyflogaeth yn eich galluogi i gyflwyno darlun llawn a theg o'ch busnes ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau. Os bydd angen ymhelaethu ar unrhyw bwyntiau, dylech ddarparu manylion yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4. Nid oes angen i chi anfon eich cyfrifon atom.

Fodd bynnag, mewn rhai busnesau mwy neu fusnesau mwy arbenigol neu chymhleth efallai na fydd y Tudalennau Hunangyflogaeth yn ddigon i roi darlun llawn a theg o'ch busnes. Efallai y byddwch yn ystyried cyflwyno gwybodaeth bellach, gan gynnwys cyfrifon neu gyfrifiannau ategol sy'n angenrheidiol.

**Ond mae'n rhaid i chi gwblhau Tudalen SE2 hefyd os yw eich trosiant blynyddol yn £15,000 neu fwy, a Thudalen SE4 os oes gennych fantolen.**

### *Os nad oes gennych gyfrifon*

Dylech gyfrifo eich elw trethadwy drwy ddefnyddio egwyddorion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol. Bydd y Nodiadau hyn (yn arbennig y rhestr termau ar dudalen SEN12) yn eich helpu. Am fwy o gyngor ar sut y trethir eich elw, beth i'w gynnwys yn eich trosiant a pha dreuliau sy'n ganiataol at ddibenion treth, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.*

Byddwch yn dod ar draws y termau '**cyfnod cyfrifo**' a '**dyddiad cyfrifo**' yn y Nodiadau hyn ac yn y Taflenni Cymorth. Os nad oes gennych gyfrifon wedi'u paratoi ar gyfer eich busnes dylech ddarllen:

- '**cyfnod cyfrifo**' i olygu'r cyfnod rydych yn darparu manylion am eich incwm a'ch treuliau busnes ar ei gyfer, **a**
- '**dyddiad cyfrifo**' i olygu'r dyddiad y daw'r cyfnod hwnnw i ben.

### *Os oes gennych gyfrifon*

Paratoir cyfrifon am amrywiaeth o resymau ac mewn amrywiaeth o ffyrdd ac efallai na fydd yn amlwg ar unwaith ble yn eich Tudalennau Hunangyflogaeth y dylech nodi rai o'ch ffigurau. Mae *Taflen Gymorth IR229: Information from your accounts* yn rhoi cymorth ymarferol ar gwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth, gan gynnwys rhai enghreifftiau.

Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd angen i chi gyfuno neu ddosrannu eich ffigurau i gydweddu â'r fformat safonol. Efallai bod mwy nag un ffordd dderbyniol o wneud hyn. Pa bynnag ddull a fabwysiadwch, dylech fod yn gyson o un flwyddyn i'r nesaf. Os ydych am esbonio unrhyw ffigurau yn fanylach, gwnewch hynny yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn trosglwyddo pob swm a nodwyd yn eich cyfrifon, a'ch bod yn eu cynnwys unwaith yn unig. Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau na chawsant eu cynnwys yn eich cyfrifon oni bai bod eu hangen arnoch i gyfrifo eich elw trethadwy neu os cawsant eu hepgor ar gam o'ch cyfrifon. Dylech gynnwys unrhyw symiau o'r fath ym mlwch 3.91. Eglurwch pam fod y swm yn angenrheidiol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4.

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

## *Newid rhwng hunangyflogaeth a phartneriaeth*

Fel arfer bydd angen i chi gwblhau'r Tudalennau Partneriaeth os oeddech yn bartner yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2007 a'r Tudalennau Hunangyflogaeth os oeddech yn hunangyflogedig yn ystod y cyfnod hwnnw. Os buoch yn cynnal yr un busnes yn ystod y flwyddyn, ond gwnaethoch hynny fel masnachwr unigol am ran o'r flwyddyn ac mewn partneriaeth am ran arall, dilynwch yr arweiniad isod.

**Cam 1** Os bydd eich cyfnod sail (gweler isod) yn cwmpasu cyfnod pan gyflawnwyd busnes gennych yn gyfan gwbl fel masnachwr unigol, dylech gwblhau'r Tudalennau Hunangyflogaeth yn y ffordd arferol. **Peidiwch** â chwblhau'r Tudalennau Partneriaeth.

**Cam 2** Os bydd eich cyfnod sail yn cynnwys cyfnod pan gyflawnwyd busnes gennych mewn partneriaeth, cwblhewch flychau 4.1 i 4.25 ar y **Tudalennau Partneriaeth** er mwyn pennu eich elw trethadwy neu golled ganiataol o'r busnes am y flwyddyn hon.

**Cam 3** Cwblhewch flychau 3.14 i 3.73 a 3.99 i 3.115 ar y **Tudalennau Hunangyflogaeth** ar gyfer unrhyw gyfnodau cyfrifo sy'n cwmpasu rhan o'ch cyfnod sail ac yn ystod y cyfnod, cyflawnwyd y busnes gennych yn gyfan gwbl fel masnachwr unigol. Os gwnaethoch gynnwys yr wybodaeth hon ar Ffurflen Dreth y llynedd, ni fydd angen i chi ei hailadrodd eleni. (Peidiwch â thrin dyddiad y newid o fasnachwr unigol i bartneriaeth, neu o bartneriaeth i fasnachwr unigol, fel un sydd angen ei nodi naill ai ym mlwch 3.7 neu flwch 3.8 ar y Tudalennau Hunangyflogaeth.) Ond os ydych wedi cwblhau blychau 4.1 i 4.25 ar y Tudalennau Partneriaeth, gadewch flychau 3.74 i 3.96 yn wag a thiciwch flwch 3.10.

### • Ffigurau dros dro

Buaswn fel arfer yn disgwyl i chi gwblhau'r adran incwm a threuliau yn eich Tudalennau Hunangyflogaeth gyda'r ffigurau incwm a threuliau terfynol a chywir. Os na allwch wneud hynny er gwaethaf eich ymdrechion gorau, darllenwch y nodiadau ar dudalennau 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth sy'n egluro'r amgylchiadau y gellir derbyn Ffurflenni Treth sy'n cynnwys ffigurau dros dro.

Os bydd angen i chi ddefnyddio un neu ragor o ffigurau dros dro dylech, er hynny, gwblhau yr holl flychau perthnasol ar y Tudalennau Hunangyflogaeth, gan gynnwys yr wybodaeth ar y cyfrifon.

Os bydd yn wirioneddol amhosibl darparu gwybodaeth derfynol neu hyd yn oed wybodaeth dros dro am gyfrifon y cyfrifir eich elw trethadwy ohonynt cyn y dyddiad diweddaraf ar gyfer dychwelyd eich Ffurflen Dreth, dylech ddarparu amcangyfrif o'ch elw trethadwy ym mlwch 3.92 a thicio blwch 3.93. Buasem yn disgwyl i amgylchiadau o'r fath fod yn brin iawn. Yr un amgylchiad cyffredin fyddai, yn achos busnes sydd newydd ddechrau, pan na fyddai'r cyfnod cyfrifo cyntaf yn dod i ben tan yn agos at, neu ar ôl, y dyddiad cyflwyno statudol. Mae 'agos at' yn golygu o fewn 3 mis o'r dyddiad cyflwyno.

Os byddwch wedi cynnwys unrhyw ffigurau dros dro ticiwch flwch 23.2 ar dudalen 9 eich Ffurflen Dreth, ac eglurwch yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 23.9, pa ffigurau sy'n rhai dros dro (cyfeiriwch at rifau'r blychau priodol) Buasai'n fy helpu hefyd petaech yn dweud yn mlwch 23.9:

- pam na allwch roi ffigurau terfynol, ac
- amcan o'r dyddiad y disgwyliwch roi eich ffigurau terfynol i ni.

### • Amcangyfrifon (gan gynnwys prisiadau)

Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd angen i chi ddarparu amcangyfrif neu brisiad nad ydych yn bwriadu ei ddiwygio yn ddiweddarach. Os felly, darllenwch y nodiadau ar dudalen 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.

## *Manylion busnes*

### • Eich cyfnod sail ar gyfer 2006-07

Rydych yn talu treth ar gyfer 2006-07 yn ôl yr elw, neu'r colledion, ar gyfer eich cyfnod sail.

Ar ôl y ddwy neu dair blynedd gyntaf mewn busnes eich cyfnod sail fydd y cyfnod o 12 mis hyd at y dyddiad a ddewiswch fel eich dyddiad cyfrifo blynyddol. Er enghraifft, os buoch mewn busnes am nifer o flynyddoedd a 31 Rhagfyr yw eich dyddiad cyfrifo blynyddol, eich cyfnod sail ar gyfer 2006-07 fydd y 12 mis o 1 Ionawr 2006 i 31 Rhagfyr 2006.

Gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth *IR222: How to calculate your taxable profits:*

- os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 2004
- os nad yw eich dyddiad cyfrifo yr un peth â'r un a ddefnyddiwyd yn 2005-06
- os nad oedd gennych ddyddiad cyfrifo yn 2006-07
- os daeth eich busnes i ben yn 2006-07.

**blychau 3.1 i 3.3** Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r blychau hyn ar gyfer pob set o Dudalennau Hunangyflogaeth a gwblhewch.

**blychau 3.4 a 3.5** Nodwch ym mlychau 3.4 a 3.5 fanylion y cyfnod y mae'r wybodaeth ym mlychau 3.24 i 3.26, neu 3.27 i 3.73, a lle mae gennych fantolen, 3.99 i 3.115, yn berthnasol iddo. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen yr adran o dan y pennawd 'Eich cyfnod sail ar gyfer 2006-07' uchod cyn parhau. Cyfrifwch eich cyfnod sail er mwyn penderfynu ar y cyfnodau cyfrifo y mae angen i chi ddarparu manylion ar eu cyfer.

**blwch 3.6** Ticiwch flwch 3.6 os yw'r manylion ym mlychau 3.1 a 3.3 wedi newid ers eich Ffurflen Dreth ddiwethaf.

**blwch 3.7** Os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 2004, nodwch y dyddiad cychwyn ym mhlwch 3.7. Os yw eich dyddiad cyfrifo wedi newid ers hynny, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.*

**blwch 3.8** Os gwerthwyd neu os caewyd eich busnes rhwng 6 Ebrill 2006 a 5 Ebrill 2007, nodwch y dyddiad y daeth i ben ym mlwch 3.8. Os nad yw hyn yr un peth â'r dyddiad ym mlwch 3.5 mae'n rhaid i chi gwblhau set arall o Dudalennau Hunangyflogaeth.

**blwch 3.9** Os ydych yn ofalwr maeth neu'n ofalwr oedolyn **neu'n** cyflawni masnach neu broffesiwn yn gyfan gwbl dramor efallai mai dim ond nifer gyfyngedig o flychau ar y Tudalennau Hunangyflogedig y bydd angen i chi eu cwblhau. Darllenwch y nodiadau ar fasnachau arbennig ac ati ar dudalennau SEN11 er mwyn gweld a yw hyn yn gymwys i chi. Os ydyw, ticiwch flwch 3.9 i ddangos pam rydych wedi gadael rhai adrannau'n wag.

**blwch 3.10** Ticiwch flwch 3.10 os nad yw'n ofynnol i chi ddarparu manylion unrhyw un o'ch cyfrifon eleni. Gadewch flychau 3.14 i 3.73 a 3.99 i 3.115 yn wag ond cwblhewch flychau 3.74 i 3.98.

**blwch 3.11** Ticiwch flwch 3.11 os oes bwlch rhwng diwedd eich cyfnod cyfrifo blaenorol a dechrau'r cyfnod presennol. Esboniwch pam yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol' blwch 3.116 ar Dudalen SE4.

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

**blwch 3.12 a 3.13** Ticiwch flwch 3.12 os bydd eich dyddiad cyfrifo wedi newid ac mae hwn yn newid parhaol rydych yn dymuno iddo gyfrif ar gyfer treth. Ticiwch flwch 3.13 (yn ogystal â blwch 3.12) os mai hwn yw'r ail newid neu newid pellach yn y dyddiad cyfrifo ers 5 Ebrill 2000 gan egluro pam y gwnaethoch y newid hwn yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116. Mae fwy o wybodaeth yn *Nhaflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits,* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

## *Lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli*

**blychau 3.14 i 3.23** Wrth gyfrifo elw eich busnes ni ddylech ddidynnu:

- cost prynu, newid neu wella asedion sefydlog, **neu**
- dibrisiant trwy oed neu ddefnydd neu unrhyw golledion sy'n codi pan fyddwch yn eu gwerthu.

Yn lle hynny, gallwch wneud cais am lwfansau treth a elwir yn 'lwfansau cyfalaf'. Didynnir y rhain wrth gyfrifo eich elw trethadwy a dylid eu cynnwys ym mlwch 3.70 (neu flwch 3.25). Gall addasiad, a elwir yn 'dâl mantoli', godi pan fyddwch yn gwerthu eitem, yn cael gwared ag eitem neu pan fyddwch yn rhoi'r gorau i'w defnyddio yn eich busnes. Ychwanegwch daliadau mantoli at eich elw trethadwy a'u cynnwys ym mlwch 3.68 (neu flwch 3.24).

Gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar gyfer cost:

- offer a pheiriannau megis cerbydau, offer, ysgolion, cyfrifiaduron a dodrefn busnes sy'n perthyn i chi. Peidiwch â gwneud cais am y pethau rydych yn eu prynu a'u gwerthu fel rhan o'ch busnes – dylid gwneud cais am y rhain fel treuliau busnes
- adeiladau amaethyddol, diwydiannol a rhai adeiladau eraill
- patentau, rhai mathau arbenigol o 'wybodaeth', ymchwil gwyddonol, echdynnu mwynau a threillio. Bydd eich ymgynghorydd treth yn gwneud cais am y rhain ar eich rhan, os byddant yn gymwys.

Gellir hawlio lwfansau'r flwyddyn gyntaf ar rywfaint o'r gwariant.

Dangosir swm y lwfans blynyddyn gyntaf isod:

| | Busnes 'bach' | Busnes 'maint canolig' |
|---|---|---|
| Y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2004 | 40% | 40% |
| Y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2005 | 50% | 40% |
| Y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2006 | 40% | 40% |
| Y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2007 | 50% | 40% |

Nid yw gwariant ar rai asedion penodol, fel ceir, asedion hir oes ac offer a pheiriannau i'w gosod ar brydles, yn gymwys. At y diben hwn mae busnes 'bach' neu 'maint canolig' yn bodloni o leiaf dau o'r amodau canlynol ar gyfer y cyfnod cyfrifo (gweler tudalen SEN2), neu gyfnod cyfrifo blaenorol:

| | Busnes 'bach' | Busnes 'maint canolig' |
|---|---|---|
| Trosiant blynyddol: heb fod yn fwy na | £5.6m | £22.8m |
| Asedion: heb fod yn fwy na | £2.8m | £11.4m |
| Cyflogeion: heb fod yn fwy na | 50 | 250 |

Gellir gwneud cais am lwfans blwyddyn gyntaf o 100% os ydych wedi prynu

- car newydd â tharthiad $CO_2$ isel nad yw'n fwy na 120gm y Km o'i yrri
- offer ail lenwi cerbydau â nwy naturiol neu dannwydd hydrogen
- offer penodol ar gyfer arbed ynni at ddefnydd busnes neu er mwyn ei roi ar lês, ei osod neu ei hurio.
- offer penodol ar gyfer arbed dŵr at ddefnydd busnes neu er mwyn ei roi ar lês, ei osod neu ei hurio.

Ticiwch flwch 3.22A os yw eich cais am lwfansau cyfalaf yn cynnwys lwfans cyfalaf uwch ar gyfer technoleg sy'n llesol i'r amgylchedd, y sonnir amdanynt uchod.

Os byddwch yn hurbrynu rhywbeth, gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf ar gost wreiddiol yr eitem; bydd y llog neu daliadau eraill yn cyfrif fel treuliau busnes a dylech eu didynnu ym mlwch 3.61.

Os byddwch yn prynu trwy drefniant ariannu amgen, gallwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gost wreiddiol yr eitem. Caiff y taliadau ariannu amgen sy'n uwch na'r gost wreiddiol eu hystyried yn dreuliau busnes a dylech eu didynnu ym mlwch 3.61.

Ni allwch wneud cais am unrhyw beth rydych wedi'i brynu yn unswydd at ddefnydd preifat, neu gost y tir hyd yn oed os caiff ei ddefnyddio ar gyfer eich busnes.

Dylech gwblhau blychau 3.14 i 3.23 **ym mhob** set o Dudalennau Hunangyflogaeth a gwblhewch. Dylech wneud hyn am fod angen cyfrifiadau lwfansau cyfalaf ar wahân ar gyfer pob un o'ch cyfnodau cyfrifo.

Gallai'r enghraifft ar dudalen SEN5 eich helpu. Ceir mwy o wybodaeth yn *Nhaflen Gymorth IR122: How to calculate your taxable profits.*

Am wybodaeth ar Lwfans Adnewyddu Eiddo Busnes darllenwch y nodiadau ar gyfer blychau 23.7 a 23.8 yn y canllaw i'ch Ffurflen Dreth.

## *Incwm a threuliau – trosiant blynyddol o dan £15,000*

Os yw eich trosiant blynyddol (ac eithrio unrhyw daliadau mantoli) o dan £15,000 am flwyddyn lawn, gallwch gwblhau'r adran incwm a threuliau arbennig, byrrach ar Dudalen SE1 (blychau 3.24 i 3.26) yn lle blychau 3.27 i 3.73 ar Dudalen SE2. Os oedd eich trosiant am gyfnod o lai na 12 mis, dylech ostwng y ffigur o £15,000 i gyfateb. Er enghraifft, os buoch mewn busnes am chwe mis a'ch trosiant dros: 6/12 x £15,000 = £7,500, mae'n rhaid i chi lenwi blychau 3.27 i 3.73.

**Ond mae'n rhaid i chi gwblhau'r naill adran neu'r llall,** a chwblhau blychau 3.15 i 3.23 os oes gennych unrhyw daliadau mantoli, a blychau 3.14 i 3.22 os ydych yn gwneud cais am lwfansau cyfalaf.

**blwch 3.24** Nodwch eich trosiant ac unrhyw dderbyniadau busnes trethadwy eraill ym mlwch 3.24. Bydd angen i chi hefyd gynnwys pris gwerthu arferol yr holl nwyddau a gymerir allan o'r busnes at eich defnydd personol, neu ar gyfer eich teulu neu'ch ffrindiau, *llai* unrhyw swm a dalasoch i mewn i'ch busnes ar gyfer y nwyddau a gymerwyd gennych. Mae hyn oherwydd dylai unrhyw swm a dalwyd i mewn i'r busnes fod wedi'i gynnwys eisoes yn y ffigur trosiant, fel gwerthiannau eraill. Dylech gynnwys unrhyw daliadau mantoli o flwch 3.23.

**blwch 3.25** Nodwch eich treuliau busnes **caniataol** ym mlwch 3.25. Gwnewch yn siŵr na chynhwyswch yn eich treuliau unrhyw eitemau nad ydynt yn ganiataol yn erbyn treth. (Bydd y Tabl ar dudalen SEN8 yn eich helpu i benderfynu.) Dylech gynnwys unrhyw lwfansau cyfalaf o flwch 3.22.

## *Incwm a threuliau – trosiant blynyddol o £15,000 neu fwy*

Os yw eich trosiant blynyddol yn £15,000 neu fwy, mae'n rhaid i chi gwblhau blychau 3.27 i 3.73 ar Dudalen SE2.

- Treth Ar Werth (TAW)

**blychau 3.27 a 3.28** Os **nad** ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, ni fydd eich ffigurau gwerthiant yn cynnwys unrhyw TAW. Dylai'r treuliau ym mlychau 3.30 i 3.64 gynnwys TAW. Nid oes angen ticio naill ai blwch 3.27 neu flwch 3.28.

Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer y Cynllun Un-gyfradd Amaethyddol TAW, dylech gynnwys unrhyw ychwanegiadau un-gyfradd a godwyd ar gwsmeriaid yn eich ffigurau gwerthiant. Dylai'r treuliau gynnwys TAW. Nid oes angen ticio naill ai blwch 3.27 neu flwch 3.28.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW ac heb fod o fewn y Cynllun Un-gyfradd (gweler tudalen SEN6), gallwch nodi manylion incwm eich busnes a threuliau caniataol naill ai

- yn gyfan gwbl yn net o TAW (hynny yw, gyda'r ffigur am TAW wedi ei ddidynnu) **neu**
- yn gyfan gwbl yn cynnwys y ffigur TAW.

**Enghraifft 1**

Peintiwr a phapurwr yw Dewi. Daeth yn hunangyflogedig ar 1 Hydref 2006. Mae'n penderfynu llunio ei gyfrifon hyd at 30 Mehefin bob blwyddyn. Pan ddechreuodd ei fusnes, prynodd ysgolion am £2,000. Prynodd fan at ddefnydd y busnes am £6,000 ar 1 Mawrth 2007.

Ychwanegir costau'r ysgolion a'r fan at ei gilydd i greu 'cronfa' costau neu wariant. Mae'r gronfa yn gymwys ar gyfer lwfans blwyddyn gyntaf (FYA) ar gyfradd o 50%.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2008, mae Dewi yn prynu car am £15,000. Mae 60% o ddefnydd y car at ddiben busnes a 40% at ddiben preifat. Rydym yn galw lwfansau cyfalaf a roddir bob blwyddyn yn lwfansau ar bapur (WDAs) oni bai fod lwfans blwyddyn gyntaf (FYA) ar gael. Mae Dewi'n cyfrifo lwfansau ar bapur ar y car ar wahân. Gan i'r car gostio mwy na £12,000, mae'n rhaid iddo gyfyngu'r lwfansau ar bapur i £3,000 y flwyddyn, ac fe'u cyfyngir ymhellach oherwydd ei ddefnydd preifat ohono.

Mae Dewi yn cau'r busnes ar 30 Medi 2008. Mae'n gwerthu'r fan am £4,000 ac yn sgrapio'r ysgolion. Mae'n gwerthu'r car am £10,000. Mae'n rhaid iddo gyfrifo p'un a oes lwfans mantoli neu dâl mantoli yn codi.

Dyma gyfrifiadau lwfans cyfalaf Dewi.

| | **Prif gronfa** | | **Car Newydd** | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod a ddaeth i ben 30 Mehefin 2007** | | | | |
| Cost yr ysgolion | £2,000 | | | |
| Cost y fan | 6,000 | | | |
| | 8,000 | | | |
| Lwfans blwyddyn gyntaf (FYA) ar 50% | 4,000 | | | |
| Gwerth a gariwyd ymlaen | 4,000 | | | |
| **Blwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2008** | | | | |
| Gwerth a ddygwyd ymlaen | 4,000 | cost | £15,000 | |
| Lwfansau ar bapur (WDA) ar 25% | 1,000 | WDA | 3,000 | (cyfyngwyd) |
| Gwerth a gariwyd ymlaen | 3,000 | Gwerth a gariwyd ymlaen | 12,000 | |

Cyfyngir y lwfansau cyfalaf y gall Dewi hawlio ar y car ymhellach i 60% (defnydd busnes) x £3,000 = £1,800

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2008** | | | |
| Gwerth a ddygwyd ymlaen | 3,000 | | 12,000 |
| Gwerth gwaredu 4,000 (fan) + 0 (sgrapio'r ysgolion) | 4,000 | gwerth gwaredu'r car | 10,000 |
| Tâl mantoli | 1,000 | | |
| Lwfans Mantoli | | | 2,000 |

Mae tâl mantoli o £1,000 a lwfans mantoli o 60% x 2,000 = £1,200

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

Pan fyddwch yn dewis yr ail ddull, dylech naill ai

- gynnwys eich taliad TAW net i ni fel treuliau ym mlwch 3.63, **neu**
- gynnwys unrhyw ad-daliad net a dderbyniwch gennym fel swm trethadwy ym mlwch 3.50. Ticiwch naill ai flwch 3.27 neu flwch 3.28 er mwyn dangos a yw'r symiau ym mlychau 3.29 i 3.64 yn cynnwys neu heb gynnwys TAW.

Os gwnaethoch gofrestru ar gyfer TAW yn ystod y cyfnod, dylai eich treuliau hyd at y dyddiad hwnnw gynnwys TAW waeth p'un a gofnodwyd gwerthiannau a threuliau diweddarach gan gynnwys neu heb gynnwys TAW. Ticiwch flwch 3.27 a chofiwch gynnwys y manylion canlynol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar dudalen SE4:

- nodyn eich bod wedi cofrestru ar gyfer TAW yn ystod y cyfnod
- dyddiad y cofrestriad
- a yw'r gwerthiannau a'r treuliau o'r dyddiad cofrestru yn cynnwys neu heb gynnwys TAW.

Os cafodd eich cofrestriad TAW ei ddileu yn ystod y cyfnod, nodwch ddyddiad y datgofrestriad ac a yw'r gwerthiannau a'r treuliau cyn y dyddiad hwnnw yn cynnwys neu heb gynnwys TAW, ym mlwch 3.116 'Gwybodaeth ychwanegol.' Dylai eich treuliau o'r dyddiad datgofrestru gynnwys TAW.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer Cynllun Un-gyfradd TAW gallwch nodi manylion eich incwm busnes a'ch treuliau caniataol naill ai

- yn gyfan gwbl yn net o TAW (hynny yw, gyda'r ffigur TAW wedi ei ddidynnu) – dull 1, **neu**
- yn gyfan gwbl yn cynnwys TAW – dull 2.

Os defnyddiwch ddull 1

- ym mlwch 3.50 dylech gynnwys unrhyw weddill sydd ar eich cyfrif TAW nad yw i gael ei dalu i ni (sef swm y TAW ar eich incwm sy'n uwch na'r TAW a dalwyd gennych ar eich treuliau plws y taliad o dan y Cynllun Un-gyfradd).
- ym mlwch 3.63 dylech gynnwys unrhyw weddill sydd ar eich cyfrif TAW na allwch adennill oddi wrthym (sef y TAW ar eich treuliau plws y taliad o dan y Cynllun Un-gyfradd llai'r TAW ar eich incwm).

Os defnyddiwch ddull 2 dylech gynnwys y taliad net i ni o dan y Cynllun Un-gyfradd fel traul ym mlwch 3.63.

Ticiwch naill ai flwch 3.27 neu flwch 3.28 i ddangos p'un a yw'r hyn a nodwyd ym mlychau 3.29 i 3.64 yn cynnwys neu heb gynnwys TAW.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW ac os yw'r nwyddau a gyflenwir gennych wedi'u trethu ar gyfradd sero (fel nad yw eich ffigurau gwerthu yn cynnwys unrhyw TAW), ticiwch naill ai flwch 3.27 neu flwch 3.28 er mwyn dangos a yw'r symiau ym mlychau 3.30 i 3.64 yn cynnwys neu heb gynnwys TAW.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, ond yn cael eich trin gennym fel busnes a eithrir yn rhannol, pan fyddwch yn cyfrifo eich elw trethadwy dylai eich treuliau busnes gynnwys unrhyw dreth fewnbwn na ellir gwneud cais amdani. Pan fyddwch yn cynnwys TAW ym mlychau 3.29 i 3.64, bydd nodi eich taliad net i ni neu ad-daliad gennym, ym mlychau 3.63 a 3.50, yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, os na fyddwch yn cynnwys TAW ym mlychau 3.29 i 3.64, dylech sicrhau bod eich ffigurau treuliau yn cynnwys unrhyw dreth fewnbwn berthnasol na wnaed cais amdani at ddibenion TAW.

Wrth gyfrifo'r taliad net i ni (neu ad-daliad gennym) efallai y byddwch wedi cynnwys TAW ar eitemau cyfalaf a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn; er enghraifft, ar asedion neu hawliau sydd o ddefnydd parhaol i'r busnes ac nad ydych yn eu prynu neu yn eu gwerthu fel rhan o'ch gweithrediadau masnachu arferol. Gallai'r rhain gynnwys eiddo busnes, offer, peiriannau, cerbydau a hawliau masnachu.

Os nodwch fanylion eich incwm a'ch treuliau sy'n cynnwys TAW ar y Tudalennau Hunangyflogaeth, gwnewch nodyn o'r TAW ar yr eitemau cyfalaf hynny yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4. Dylech gynnwys swm y TAW a dalwyd gennych ar yr eitem(au) cyfalaf yn eich cyfrifiadau o'r lwfans cyfalaf a grynhowyd ym mlychau 3.14 i 3.23.

Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'r driniaeth TAW gywir ar y Tudalennau Hunangyflogaeth, neu gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth am arweiniad mwy cyffredinol ynglŷn â TAW.

## • Incwm gwerthiant/busnes (trosiant)

**blwch 3.29** Nodwch swm eich trosiant ym mlwch 3.29. Os yw'n cynnwys incwm y didynnwyd treth ohono (ac eithrio didyniadau a wnaed gan gontractwyr ar gyfer treth) nodwch gyfanswm y dreth a ddidynnwyd rhwng 6 Ebrill 2006 a 5 Ebrill 2007 ym mlwch 3.98.

## • Treuliau busnes

**blychau 3.30 i 3.63** Dylech gynnwys eich holl dreuliau busnes ym mlychau 3.46 i 3.48 a 3.51 i 3.63.

Gallwch hawlio treuliau a delir yn gyfan gwbl at ddibenion busnes yn unig. Efallai na fydd rhai o'r symiau a nodwch ym mlychau 3.46 i 3.63 yn ganiataol at ddibenion treth. Nodwch unrhyw symiau anghaniataol ym mlychau 3.30 i 3.45 a rhowch gyfanswm y blychau hyn ym mlwch 3.66.

Gall symiau anghaniataol fod yn dreuliau nad ydynt yn ganiataol o gwbl at ddibenion treth (fel treuliau gwesteia, dibrisiant asedion sefydlog neu eich cyflog/tyniadau) neu'r rhan anghaniataol o dreuliau (fel treuliau moduro, os defnyddir eich cerbyd ar gyfer teithiau preifat yn ogystal â defnydd busnes).

**Enghraifft 2**

Roedd cyfanswm eich treuliau moduro a gynhwyswyd ym mlwch 3.55 yn £3,000 ac mae traean o'ch milltiroedd yn breifat. Gallwch ond wneud cais am ddwy ran o dair o'r gost yn erbyn y dreth, hynny yw £2,000. Nodwch gyfran y defnydd preifat o £1,000 ym mlwch 3.37.

Gall rhai busnesau bach gyfrifo treuliau car drwy ddefnyddio cyfradd sefydlog am bob milltir fusnes yn hytrach na chostau gwirioneddol. Mae'r manylion a'r amodau yn *Nhaflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits.* Os gellir adennill unrhyw un o'r symiau ym mlychau 3.46 i 3.48 a 3.51 i 3.63 o dan yswiriant, dylech eu cynnwys yn y treuliau anghaniataol i'w nodi ym mlychau 3.30 i 3.45 (oni bai eu bod eisoes ym mlwch 3.29 neu ym mlwch 3.50).

**Defnyddiwch y Tabl ar dudalen SEN8. Mae'n rhoi gwybodaeth bellach ar sut i gwblhau'r blychau.**

## • Incwm/elw arall

**blwch 3.50** Nodwch ym mlwch 3.50 unrhyw incwm busnes (heblaw Lwfans Cychwyn Busnes, a elwir weithiau yn Lwfans Menter, sy'n mynd ym mlwch 3.91) na chafodd ei gynnwys gennych fel trosiant ym mlwch 3.29. Gallai enghreifftiau gynnwys incwm rhentu, taliadau trethadwy'r Fargen Newydd, llog neu dderbyniadau ariannu amgen o gyfrif busnes gyda banc neu gymdeithas adeiladu a hawliau tramwy (hynny yw, tâl a gewch am hawl i groesi tir, dyweder, er mwyn i adeiladydd gyrraedd safle adeiladu). Os ydych yn cynnwys yr incwm hwn mewn lle gwahanol ar eich Ffurflen Dreth, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddidynnu ym mlwch 3.71. Er enghraifft, ni ddylai llog banc y bwriadwch ei gynnwys yng Nghwestiwn 10 ar dudalen 3 eich Ffurflen Dreth gael ei gynnwys yn elw neu golled net y busnes a ddangosir ym mlwch 3.73.

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

## • Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4 os ydych am esbonio unrhyw ffigurau yn fanylach. Er enghraifft:

- manylion unrhyw eitemau sylweddol neu anarferol (naill ai incwm neu wariant) a gynhwyswyd yn eich ffigurau, **neu**
- manylion derbyniadau neu wariant sy'n gysylltiedig â'ch busnes na chawsant, am ryw reswm, eu cynnwys yn eich ffigurau, **neu**
- esboniad o unrhyw addasiad treth i'ch elw net pan nad yw'r rheswm yn amlwg o'r ffigurau hyn, **neu**
- esboniad o unrhyw eitemau na chawsant eu cynnwys yn eich gwybodaeth am gyfrifon, ond sy'n effeithio ar eich elw trethadwy, fel taenu elw llenyddol, **neu**
- manylion unrhyw eitemau a roddwyd o dan Gynllun Rhodd Cymorth, ac i ba elusennau. Rhoddir rhyddhad yn awtomatig wrth gyfrifo elw masnachu drwy drin rhoddion o'r fath megis gwarediadau o stoc ac offer gan ystyried nad oes iddynt werth, heblaw gwerth arferol y farchnad.

Gallai hyn osgoi gwneud ymholiadau diangen. Mae cymorth pellach ar gael yn *Nhaflen Gymorth IR229: Information from your accounts.*

## *Addasiadau treth i elw neu golled net*

**blwch 3.66** Ym mlwch 3.66 nodwch gyfanswm y treuliau caniataol ym mlychau 3.30 i 3.45.

**blwch 3.67** Dylech wneud addasiadau hefyd ar gyfer nwyddau a gymerwyd o'r busnes at eich defnydd personol neu ar gyfer eich teulu neu eich ffrindiau. Nodwch ym mlwch 3.67 bris gwerthu arferol yr holl nwyddau o'r fath, *llai* unrhyw swm a dalwyd i mewn i'ch busnes am y nwyddau ac rydych eisoes wedi'u cynnwys yn eich trosiant ym mlwch 3.29.

Defnyddiwch flwch 3.67 ar gyfer symiau a daenwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol, oherwydd eich bod wedi gwneud cais o dan Gonsesiwn Allstatudol B11 a oedd yn eich caniatáu i daenu elw yn codi o iawndal am ddifa gorfodol anifeiliaid fferm. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Chonsesiwn B11 gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR224 Farmers and Market Gardeners.*

**blwch 3.71** Defnyddiwch flwch 3.71 ar gyfer unrhyw addasiadau (didynnwch o elw neu adiwch at golled) ar gyfer unrhyw symiau a gafodd eu hystyried gennych wrth bennu eich elw neu'ch colled net, ond nad ydynt naill ai

- yn dderbyniadau trethadwy, **neu**
- yn drethadwy fel elw.

Mae'n rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm trethadwy yn rhan briodol eich Ffurflen Dreth am y flwyddyn y mae'n drethadwy.

Os ydych yn ffermwr ac rydych am wneud cais am Gonsesiwn Allstatudol B11 (iawndal am ddifa gorfodol), nodwch y lleihad ym mlwch 3.71 a rhowch nodyn yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116.

Mae'r swm a ddidynnwyd yn drethadwy dros y tair blynedd dreth ganlynol (neu'r cyfnod tan i chi orffen ffermio p'un bynnag yw'r byrraf). Mae'n rhaid i chi ei gynnwys trwy ddefnyddio'r blwch ar gyfer addasiadau cyfatebol, blwch 3.71, yn Nhudalennau Hunangyflogaeth eich Ffurflen Dreth am y blynyddoedd hynny. Gwnewch gofnod o hyn i sicrhau na fyddwch yn anghofio'r addasiadau hyn.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Chonsesiwn B11 gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR224: Farmers and Market Gardeners.*

### *Treth dramor*

Os bydd eich incwm busnes yn cynnwys symiau a drethwyd dramor, efallai y gallwch wneud cais am gredyd yn erbyn eich bil treth yn y DU. Er mwyn gwneud hynny, dylech gwblhau'r Tudalennau Tramor. (Gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi os nad oes un gennych). Hon fel arfer fydd y ffordd fwyaf buddiol i wneud cais am ryddhad ar gyfer y dreth dramor a dalwyd.

Fodd bynnag, os na fyddwch am wneud cais am ryddhad credyd treth, gallech yn lle hynny ddidynnu'r dreth dramor wrth gyfrifo eich elw trethadwy neu'ch colled. Nodwch swm y dreth dramor mewn sterling sy'n cyfateb i swm y dreth dramor a dalwyd ar yr incwm tramor a gynhwysir yn y Tudalennau Hunangyflogaeth ym mlwch 3.71. Cofiwch eithrio'r dreth hon o'r Tudalennau Tramor.

Os ydych yn gwneud cais am ryddhad gorgyffwrdd eleni ar gyfer swm y gwnaethoch gais am ryddhad credyd treth mewn blwyddyn gynharach, bydd angen *Taflen Gymorth IR260: Overlap* os ydych am gyfrifo eich treth. Fel arall, nodwch fanylion y swm y gwnaed cais amdano yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4.

## *Addasiadau er mwyn pennu elw neu golled*

Dim ond unwaith y dylech gyfrifo eich elw trethadwy neu'ch colled ar gyfer 2006-07, hyd yn oed os ydych yn darparu manylion o fwy nag un set o gyfrifon am y flwyddyn hon. Defnyddiwch yr adran **'Addasiadau er mwyn pennu elw neu golled trethadwy'** yn y set o Dudalennau Hunangyflogaeth ar gyfer eich set ddiweddaraf o gyfrifon. Os buoch yn cynnal y busnes mewn partneriaeth yn ystod unrhyw ran o'ch cyfnod sail, peidiwch â chwblhau blychau 3.74 i 3.96 ar y Tudalennau Hunangyflogaeth, ond yn lle hynny cwblhewch flychau 4.1 i 4.25 ar y Tudalennau Partneriaeth.

**blychau 3.74 a 3.75** Nodwch y dyddiadau y mae eich cyfnod sail ar gyfer 2006-07 yn dechrau ac yn gorffen ym mlychau 3.74 a 3.75. Eglurir y cyfnod sail ar dudalen SEN3.

**blychau 3.76 a 3.77** Copïwch eich elw neu'ch colled o flwch 3.26 neu flwch 3.73, p'un bynnag sy'n briodol, i flwch 3.76 (nodwch golled mewn cromfachau). Os byddwch wedi ticio blwch 3.10, nodwch '0' ym mlwch 3.76 a chynhwyswch swm priodol yr elw a ddatganwyd y llynedd yn eich cofnod ym mlwch 3.77.

Os na fydd eich cyfnod sail yr un peth â'r cyfnod a gwmpaswyd gan eich cyfrifon, cyfrifwch elw neu golled y cyfnod sail drwy adio at ei gilydd a/neu rannu'r elw neu'r colledion y cyfnodau y mae gennych gyfrifon ar eu cyfer. Nodwch ym mlwch 3.77 unrhyw swm y mae angen adio at, neu ddidynnu o'r ffigur ym mlwch 3.76. Mae *Taflen Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits* yn esbonio sut i gyfrifo'r addasiad.

Os bydd yr addasiad yn golygu bod yn rhaid i chi ddidynnu ffigur ym mlwch 3.77, nodwch y ffigur mewn cromfachau a chofiwch ei ddidynnu wrth bennu cyfanswm eich elw trethadwy.

## • Rhyddhad gorgyffwrdd

**blychau 3.78 i 3.80**

### *Elw a rhyddhad gorgyffwrdd*

Os bydd eich dyddiad cyfrifo blynyddol yn ddyddiad heblaw 5 Ebrill yna gall gorgyffwrdd yn eich cyfnodau sail ddigwydd:

- yn y tair blynedd gyntaf ar ôl i'ch busnes ddechrau, **neu**
- mewn blwyddyn lle mae newid yn y cyfnod cyfrifo.

Efallai y gallwch wneud cais am ryddhad gorgyffwrdd ar gyfer yr elw (yr elw gorgyffwrdd) sy'n codi mewn unrhyw gyfnod gorgyffwrdd.

Gallai rhyddhad gorgyffwrdd fod yn ddyledus ar gyfer 2006-07 os:

- gwnaethoch gau neu werthu eich busnes ym 2006-07, **neu**
- newidiasoch eich dyddiad cyfrifo ym 2006-07 ac mae eich cyfnod sail, fel y dangosir ym mlychau 3.74 a 3.75, yn fwy na 12 mis.

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

| | Treuliau anghaniataol | Cyfanswm y treuliau |
|---|---|---|
| • Cost gwerthiant | **blwch 3.30** Treuliau tanwydd at ddefnydd cerbydau nad ydynt yn ymwneud â busnes. | **blwch 3.46** Os ydy'r busnes yn ymwneud ag ailwerthu neu ddefnyddio deunyddiau crai, nodwch gost y nwyddau a ddefnyddiwyd; hynny yw pryniannau ynghyd â stoc agoriadol/gwaith ar y gweill *llai* stoc cau/gwaith ar y gweill. Felly, er enghraifft, dylai **isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu** gynnwys yma gost unrhyw ddeunyddiau a gyflenwyd. Dylai **gyrwyr tacsis, gyrwyr minicab ac ati, a'r rheini sydd yn y diwydiant cludiant ffordd** nodi gwariant tanwydd yn y blwch hwn yn hytrach nag yn rhywle arall.<br>Mae busnesau sy'n darparu gwasanaethau yn aml yn addasu eu helw busnes i adlewyrchu gwaith ar y gweill ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo. Os yw hwn yn briodol, gwnewch yr addasiad yma; fel arall, gadewch y blwch yn wag. Os yw'r ffigur yn negyddol, nodwch ef mewn cromfachau. |
| • Costau isgontractiwr y diwydiant adeiladu | **blwch 3.31** Unrhyw daliadau a wnaed mewn perthynas â gwaith nad yw'n ymwneud â busnes. | **blwch 3.47** Dylech gynnwys yr holl daliadau i isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu. Nodwch y swm cyn didynnu treth os gwnaed unrhyw daliadau i isgontractwyr heb dystysgrif. |
| • Costau uniongyrchol eraill | **blwch 3.32** Dibrisiant (hynny yw traul oherwydd defnydd ac oed) offer sefydlog. | **blwch 3.48** Treuliau a ddidynnwyd er mwyn pennu elw gros, er enghraifft, gostyngiadau a ganiateir, comisiynau sy'n daladwy, cludiant ac, mewn busnesau gweithgynhyrchu, costau cynhyrchu nwyddau a werthir megis costau llafur uniongyrchol, dibrisiant offer sefydlog, hurio peiriannau, offer bach a nwyddau traul. Os bydd y busnes yn darparu gwasanaethau, efallai y bydd ganddo dreuliau yr ailgodir tâl arnynt, i'w didynnu er mwyn pennu ffigur ar gyfer elw gros. |
| • Costau gweithwyr | **blwch 3.33** Costau cyflogaeth nas talwyd o fewn 9 mis o ddiwedd y cyfnod cyfrifo, neu unrhyw daliadau a wnaed am waith nad yw'n ymwneud â'r busnes. | **blwch 3.51** Cyflogau, bonysau, pensiynau, buddiannau, Cyfraniadau YG y cyflogwr ac ati ar gyfer gweithwyr parhaol, dros dro ac achlysurol, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â staff fel treuliau ffreutur a ffioedd asiantaeth recriwtio ac ati. Unrhyw gostau llafur isgontract, gan gynnwys ffioedd locwm, nas cynhwyswyd rywle arall. Ni ddylech gynnwys yma eich costau cyflogaeth eich hun, (er enghraifft, eich cyflog tyniadau, taliadau pensiwn neu Gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich hun). |
| • Costau eiddo | **blwch 3.34** Y rhan honno o'r costau eiddo nad yw'n ymwneud â busnes. Costau caffael eiddo. | **blwch 3.52** Rhent, trethi busnes, trethi dŵr, golau, gwres, pŵer, yswiriant eiddo, diogelwch a threuliau tebyg eraill. Os bydd cyfrifon yn cynnwys swm ar gyfer 'defnyddio cartref', dylech gynnwys y ffigur hwnnw yma. |
| • Gwaith atgyweirio | **blwch 3.35** Y rhan honno o waith atgyweirio, adnewyddu a chynnal a chadw cyffredinol o eiddo a pheiriannau a ddefnyddir yn rhannol ar gyfer busnes. Costau newid, gwella neu adnewyddu eiddo a pheiriannau. | **blwch 3.53** Gwaith atgyweirio ac adnewyddu, gwaith cynnal a chadw cyffredinol eiddo a pheiriannau'r busnes. |
| • Treuliau gweinyddol cyffredinol | **blwch 3.36** Y rhan honno o gostau nad yw'n ymwneud â busnes. Taliadau i bleidiau gwleidyddol. Y rhan fwyaf o daliadau i glybiau, elusennau neu eglwysi. | **blwch 3.54** Ffôn, ffacs, post, papur swyddfa a chostau argraffu, gwasanaethau cludo, ynghyd â threuliau swyddfa cyffredinol, costau cyfnodolion masnach neu broffesiynol a thanysgrifiadau ac ati, costau yswiriant nas cynhwyswyd rywle arall a chostau rheolaidd tebyg eraill sy'n codi wrth redeg y busnes. |
| • Treuliau moduro | **blwch 3.37** Moduro nad yw'n gysylltiedig â busnes. Teithio rhwng eich cartref a'ch busnes. Costau prynu cerbydau (ond gellir gwneud cais am lwfansau cyfalaf). Dirwyon parcio a dirwyon eraill. | **blwch 3.55** Yswiriant, gwasanaethu, atgyweirio, Trwydded Cerbyd, petrol neu ddisl, taliadau hurio a phrydlesu, taliadau parcio, aelodaeth AA/RAC. |
| • Teithio a chynhaliaeth | **blwch 3.38** Prydau bwyd (heblaw cost resymol prydau bwyd ar deithiau busnes dros nos). | **blwch 3.56** Yr holl gostau teithio heblaw'r rheini a gynhwyswyd yn y treuliau moduro, fel costau trên, hedfan a thacsi, ynghyd â chostau gwesty a chostau cynhaliaeth neu gostau tebyg. |
| • Hysbysebu, hyrwyddo a gwesteia | **blwch 3.39** Gwesteia a lletygarwch, (ac eithrio rhoddion o £50 y person y flwyddyn sy'n hysbysebu eich busnes lle nad yw'n ymwneud â bwyd a diod, a chostau gwesteia staff). | **blwch 3.57** Costau cyffredin hysbysebu a hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau'r busnes o ddydd i ddydd, fel hysbysebion papurau newydd, ymgyrchoedd drwy'r post a dosbarthu samplau o'r nwyddau sydd ar gael am ddim. Dylech gynnwys costau gwesteia yma hefyd. |
| • Costau cyfreithiol a phroffesiynol | **blwch 3.40** Costau datrys anghydfodau treth, costau cyfreithiol prynu asedion sefydlog (caiff y rhain eu trin fel rhan o gost yr ased sefydlog). Costau a dirwyon neu gosbau am dorri'r gyfraith. | **blwch 3.58** Costau cyfrifydd, cyfreithiwr, syrfëwr, pensaer, rheolwr stoc a chostau tebyg eraill, ynghyd â phremiymau yswiriant indemniad proffesiynol a phethau tebyg. |
| • Dyledion drwg | **blwch 3.41** Cronfa gyffredinol dyledion drwg wrth gefn. Dyledion na chawsant eu trethu pan wnaethant godi, er enghraifft, am eu bod yn ymwneud â gwerthu ased sefydlog. | **blwch 3.59** Swm yr arian a gynhwyswyd mewn trosiant ond sy'n parhau heb ei dalu ar y dyddiad cyfrifo rydych yn ystyried na fydd byth yn cael ei adennill ac rydych wedi penderfynu ei ddileu eleni. Os ydych, yn annisgwyl, yn adennill y swm mewn blwyddyn ddiweddarach, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei gynnwys ym mlwch 3.50 yn Ffurflen Dreth y flwyddyn ddiweddarach honno. |
| • Llog a thaliadau ariannu amgen | **blwch 3.42** Ad-dalu'r benthyciad, y trefniadau ariannu amgen neu'r gorddrafft. | **blwch 3.60** Llog a thaliadau ariannu amgen ar fenthyciadau banc a benthyciadau eraill (gan gynnwys gorddrafft) a threfniadau ariannu amgen. |
| • Taliadau ariannu eraill | **blwch 3.43** Ad-dalu'r benthyciad, y trefniadau ariannu amgen neu'r gorddrafft. | **blwch 3.61** Taliadau banc, taliadau cerdyn credyd, llog hurbwrcas a thaliadau prydlesu, taliadau ariannu amgen, ynghyd â chostau tebyg eraill nas cynhwyswyd rywle arall. |
| • Dibrisiant a cholled/(elw) wrth werthu | **blwch 3.44** Yn gyffredinol, nid yw dibrisiant a cholledion ar asedion yn ganiatáol ar gyfer treth, ac nid yw elw ar asedion yn dderbyniadau trethadwy. Dylai unrhyw ffigur ym mlwch 3.62 gael ei ddileu drwy roi'r un ffigur ym mlwch 3.44. Fodd bynnag, i'r graddau y gellir priodoli unrhyw un o'r eitemau hyn i asedion a ddelir o dan brydlesau ariannol, gall triniaeth wahanol fod yn briodol. Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'r driniaeth gywir, gofynnwch i ni neu'ch cynghorydd treth. | **blwch 3.62** Adiwch dibrisiant a cholledion drwy werthu asedion, a didynnwch elw drwy werthu asedion a gynhwysir yn eich cyfrifon, a nodwch y canlyniad yn y blwch. Pan fydd yr elw drwy werthu ased yn fwy na chyfanswm unrhyw golledion ar ôl gwerthu a dibrisiant wedi'u hadio at ei gilydd, dangoswch ffigur o'r fath mewn cromfachau. Dylai'r ffigur mewn cromfachau gael ei ddidynnu pan fyddwch yn adio cyfanswm eich treuliau.<br>Os gwnaethoch elw drwy werthu asedion, dylech ystyried a oes angen i chi nodi ennill cyfalaf yn y Tudalennau Enillion Cyfalaf. |
| • Treuliau eraill | **blwch 3.45** Y rhan honno o dreuliau nad yw'n ymwneud â busnes ym mlwch 3.63. Dillad cyffredin, bob dydd, hyd yn oed os cawsant eu prynu yn arbennig at ddefnydd busnes. | **blwch 3.63** Adiwch yr holl dreuliau nas cynhwyswyd rywle arall a nodwch y cyfanswm. |

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

Mae Taflen *Gymorth IR222: How to calculate your taxable profits* sy'n egluro sut i gyfrifo elw gorgyffwrdd a sut i wneud cais am ryddhad gorgyffwrdd.

Ym mlwch 3.78 nodwch unrhyw elw gorgyffwrdd nas defnyddiwyd (gan gynnwys unrhyw elw gorgyffwrdd trosiannol nas defnyddiwyd) a ddygwyd ymlaen o 2005-06; ym mlwch 3.79 unrhyw elw gorgyffwrdd a ddefnyddiwyd ym 2006-07; ac ym mlwch 3.80 unrhyw elw gorgyffwrdd nas defnyddiwyd a gariwyd ymlaen i 2007-08. Mewn achosion sy'n darfod, gellir defnyddio unrhyw rhyddhad nas defnyddiwyd fel arall, i gynyddu'r golled derfynol, a'u nodi ym mlwch 3.86.

**blwch 3.81** Efallai y gallech wneud cais i gyfartalu:

- os ydych yn ffermwr neu'n arddwr masnachol, **neu**
- os yw'ch incwm yn deillio o werthu neu drwy adael i eraill ailgynhyrchu gweithiau llenyddol neu artistig yr ydych chi wedi'u creu yn bersonol.

Nodwch ym mlwch 3.81 y swm y caiff eich elw ei newid ganddo gan y cais cyfartalu. Nodwch y ffigur mewn cromfachau os yw'n gostwng eich elw. Nid yw'r cofnod hwn yn newid swm unrhyw golled i'w chynnwys ym mlwch 3.84.

Os ydych yn cyfrifo eich treth mae'n rhaid i chi gynnwys yr addasiad i'ch treth ar gyfer 2005-06 o ganlyniad i'ch cais cyfartalu, yn eich Ffurflen Dreth. Defnyddiwch flwch 18.4 os bydd y dreth yn cynyddu neu flwch 18.5 os bydd y dreth yn gostwng.

Am fwy o wybodaeth gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR224: Farmers and Market Gardeners,* neu *Daflen Gymorth IR234: Averaging for creators of literary and artistic works.*

**blwch 3.82** Os oes proffesiwn neu alwedigaeth gennych ac rydych wedi defnyddio sail 'arian parod' neu 'gonfensiynol' o'r blaen i gyfrifo eich elw, rhowch swm yr 'addasiad' a drethir eleni ym mlwch 3.82 a darllenwch y nodyn 'Proffesiynau a galwedigaethau ar sail 'arian parod' ar dudalen SEN11.

Os ydych yn cynnal masnach, proffesiwn neu alwedigaeth a rydych wedi derbyn incwm trwy gytundebau am wasanaeth proffesiynol neu wasanaethau eraill, gweler y nodyn 'Newidiadau cyfrifo ar gyfer cytundebau am wasanaeth – Materion Brys 'Task Force 40' ar dudalen SEN11. Nodwch swm yr 'addasiad' a godir yn y flwyddyn hon, ym mlwch 3.82.

**blychau 3.83 a 3.84** Os bydd blwch 3.76 a'r addasiadau ym mlychau 3.77 a 3.79 yn arwain at elw ac nid ydych wedi gwneud cais am gyfartalu (blwch 3.81) neu wedi gwneud addasiad arbennig ar gyfer y newid mewn cyfrifo ar gyfer proffesiynau neu alwedigaethau ar sail arian parod neu gytundebau gwasanaethu (blwch 3.82), nodwch yr elw ym mlwch 3.83 a '0' ym mlwch 3.84. Os ydych wedi nodi ffigur naill ai ym mlwch 3.81 neu 3.82, addaswch yr elw gan y swm hwnnw a nodwch y canlyniad ym mlwch 3.83 a '0' ym mlwch 3.84.

Os bydd blwch 3.76 a'r addasiadau ym mlychau 3.77 a 3.79 yn arwain at golled, nodwch y ffigur hwn ym mlwch 3.84 a '0' ym mlwch 3.83, oni fyddwch wedi gwneud cais am gyfartalu (blwch 3.81) neu wedi gwneud addasiad arbennig ar gyfer y newid wrth gyfrifo ar gyfer proffesiynau a galwedigaethau ar sail arian parod neu gytundebau gwasanaethu (blwch 3.82).
Os ydych wedi nodi ffigur naill ai ym mlwch 3.81 neu 3.82, nodwch y ffigur hwn ym mlwch 3.83 (a'r golled ym mlwch 3.84.)

**Os ydych wedi gwneud colled**, efallai y gallech wneud cais am ryddhad treth ar ei chyfer. Gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR227: Losses.*

**Terfynau amser:** Mae'n rhaid i rai ceisiadau colled gael eu gwneud erbyn 31 Ionawr 2009. Dylech sicrhau bod unrhyw geisiadau yr hoffech eu gwneud yn cael eu gwneud o fewn y terfyn amser a nodwyd. Fel arfer, ni allwn dderbyn ceisiadau hwyr.

**blwch 3.85** Os hoffech wrthbwyso eich colled yn 2006-07 yn erbyn incwm arall yn 2006-07, nodwch y swm rydych yn gwneud cais i'w wrthbwyso ym mlwch 3.85 (gweler hefyd *Daflen Gymorth IR227: Losses).*

**blwch 3.86** Os ydych am wneud cais i gyfrifo'r rhyddhad ar gyfer colled 2006-07 drwy gyfeirio at incwm blwyddyn neu blynyddoedd cynharach, nodwch swm y golled ym mlwch 3.86. Os ydych eisoes wedi gwneud cais i gyfrifo'r rhyddhad trwy'r dull hwn, dylech gynnwys y golled o hyd ym mlwch 3.86, a darparu manylion yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4.

**blwch 3.87** Ym mlwch 3.87 nodwch unrhyw golledion a gafwyd yn 2006-07 rydych yn gwneud cais i'w cario ymlaen yn erbyn elw diweddarach. (Pan drosglwyddir eich busnes wedi hynny i gwmni yn gyfnewid am gyfranddaliadau yn y cwmni hwnnw, efallai y byddwch yn gallu gosod colledion nas defnyddiwyd ac a gariwyd ymlaen yn erbyn incwm o'r cwmni – gweler y nodyn ar gyfer blwch 15.8 ar dudalen 25 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.)

**blychau 3.88 a 3.89** Nodwch ym mlwch 3.88 unrhyw golledion a gafwyd yn yr un busnes mewn blynyddoedd cynharach, rydych yn gwneud cais i'w cario ymlaen yn erbyn elw diweddarach, ac nad ydych eisoes wedi'u defnyddio.

Gallwch ddefnyddio'r golled honno i wrthbwyso unrhyw elw ym mlwch 3.83. Nodwch ym mlwch 3.89 y swm rydych yn ei ddidynnu hyd at y ffigur ym mlwch 3.83.

Mae rheolau arbennig yn gymwys ar gyfer gofalwyr maeth sydd wedi gwneud colledion mewn blynyddoedd cynharach. Gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR236: Foster carers and adult placement carers.*

**blwch 3.91** Ym mlwch 3.91 nodwch unrhyw symiau nas cynhwyswyd rywle arall yn y Tudalennau Hunangyflogaeth ond a dderbyniwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2007 ac sydd eu hangen er mwyn cyfrifo eich elw trethadwy, er enghraifft:

- Lwfans Cychwyn Busnes (a elwir weithiau yn Lwfans Menter)
- premiymau gwrthdro – taliadau neu fuddiannau yw'r rhain a geir fel cymhelliad i brydlesu unrhyw eiddo heblaw eich prif breswylfan neu eich unig breswylfan. Os mai'r bwriad yw meddiannu'r eiddo ar brydles ar gyfer eich masnach, proffesiwn neu alwedigaeth, bydd y premiwm gwrthdro yn swm trethadwy a dderbynnir gan eich busnes. Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'r ffordd gywir o drin premiwm gwrthdro at ddibenion treth, neu yn wir unrhyw dderbyniad, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

**blychau 3.92 a 3.93** Nodwch gyfanswm blychau 3.90 a 3.91 ym mlwch 3.92. Os na fedrwch roi'r ffigurau terfynol yn yr adran ar gyfer incwm a threuliau y Tudalennau hyn, cyn y dyddiad olaf i gyflwyno eich Ffurflen Dreth, dylech roi amcangyfrif o'ch elw trethadwy ym mlwch 3.92 a thicio blwch 3.93. Darllenwch y nodiadau ar dudalen 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth a wedyn ticiwch flwch 23.2 ar dudalen 9 eich Ffurflen Dreth. Byddai o gymorth hefyd petaech yn nodi yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 23.9 pam na allwch roi'r ffigurau terfynol ym mlwch 3.92. Rhowch ddyddiad pan ddisgwyliwch allu roi eich ffigur terfynol.

## *Cyfraniadau Yswiriant Gwladol*

Bydd pobl Hunangyflogedig yn gyfrifol am dalu'r cyfraniadau Dosbarth 2 un-gyfradd er y gall pobl ag enillion bach wneud cais i gael eu heithrio. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu'r cyfraniadau Dosbarth 4 ar sail elw hefyd (gweler isod).

## *Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2*

Dylai pawb sy'n Hunangyflogedig gofrestru i dalu cyfraniadau Dosbarth 2 cyn gynted a phosibl ar ôl dechrau ar eu Hunangyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai wneud cais i gael eu heithrio rhag talu. Y terfyn amser ar gyfer cofrestru yw 3 mis o ddiwedd y mis y dechreuwch weithio i chi eich hun. Os na fyddwch yn cofrestru mewn pryd efallai y codir cosb arnoch.

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

Mae cyfraniadau Dosbarth 2 yn cyfrif tuag at yr hawl i gael budd-daliadau cyfrannol penodol gan gynnwys pensiwn ymddeol, Lwfans Mamolaeth a Budd-dâl Analluogrwydd. Gallech golli y budd-dâl os telir cyfraniadau Dosbarth 2 yn hwyr. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru fel person hunangyflogedig at ddibenion Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gallwch gael rhagor o wybodaeth am dalu drwy ffonio'r Llinell Gymorth ar gyfer pobl sydd newydd ddod yn Hunangyflogedig ar **08459 15 45 15**, neu drwy ysgrifennu i'r Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn:

National Insurance Contributions Office
Self Employment Services,
Customer Account Section,
Benton Park View,
Newcastle upon Tyne NE98 1ZZ.

Gwnewch yn siŵr fod eich rhif Yswiriant Gwladol gennych pan fyddwch yn ffonio'r Llinell Gymorth a'i gynnwys mewn unrhyw ohebiaeth gydag Adran Cyfrifon Cwsmeriaid, Gwasanaethau Hunangyflogaeth.

## *Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4*

Mae'n rhaid i bobl hunangyflogedig dalu cyfraniadau Dosbarth 4 ar elw o unrhyw fasnach, proffesiwn neu alwedigaeth oni bai eu bod 'wedi'u heithrio' neu os bydd gohiriad yn gymwys. Mae'r cyfraniadau yn ganran o'r elw trethadwy sy'n uwch na £5,035 ar gyfer y flwyddyn dreth.

**blwch 3.94** Cewch eich eithrio rhag talu cyfraniadau Dosbarth 4 ar gyfer 2006-07, os ar 6 Ebrill 2006:

- rydych yn ddyn 65 oed neu'n hŷn neu'n fenyw 60 oed neu'n hŷn, **neu**
- os ydych o dan 16 oed ac mae Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi caniatáu 'eithriad' i chi (i wneud cais am eithriad gofynnwch am ffurflen CA2835U), **neu**
- nad ydych yn preswylio yn y DU at ddibenion treth yn ystod 2006-07 (cysylltwch â ni neu'ch ymgynghorydd treth os na wyddoch a yw hyn yn gymwys i chi).

Ticiwch flwch 3.94 (eithrio rhag cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4) os bydd un o'r amodau hyn yn gymwys. Peidiwch â chwblhau blwch 3.95 (gohirio cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4) neu flwch 3.96 (addasiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4).

**blwch 3.95** Weithiau, pan allai cyfraniadau Dosbarth 1 a Dosbarth 4 fod yn ddyledus, efallai fydd cyfraniadau Dosbarth 4 yn daladwy ar gyfradd ostyngol yn unig. O dan yr amgylchiadau hyn gall y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gytuno i 'ohirio' eich cyfraniadau Dosbarth 4 nes y gellir pennu eich cyfraniadau cyffredinol. Dim ond hwy all gytuno i ohirio. Gofynnwch y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol am ffurflen gais CA72B y mae'n rhaid i chi ei chwblhau a'i dychwelyd i'r Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Byddwch yn derbyn tystysgrif gohirio talu (ffurflen CA2703) unwaith y bydd eich cais wedi ei gytuno.

**Ticiwch flwch 3.95 (gohirio cyfraniadau Yswiriant Gwladol) dim ond os ydych wedi derbyn y dystysgrif ohirio gan y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol.**

Efallai y bydd addasiadau eraill a allai ostwng swm y cyfraniadau Dosbarth 4 y mae'n rhaid i chi eu talu. Gweler y nodiadau ar gyfer blwch 3.96 (addasiadau cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4).

**blwch 3.96** Ceir addasiadau sy'n gostwng swm y cyfraniadau Dosbarth 4 sy'n daladwy, megis: addasiadau sail arian parod; newidiadau cyfrifyddu ar gyfer cytundebau gwasanaethu rhai colledion penodol ar gyfer blynyddoedd cynharach; ac enillion fel cyflogai a gynhwyswyd fel rhan o'ch elw. Bydd y Daflen Waith isod yn eich helpu i gyfrifo swm unrhyw addasiad y gallwch ei hawlio. Os oes gennych fusnes arall, yna gofynnwch y Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR220: More than one business*.

### *Taflen Waith ar gyfer cyfraniadau YG Dosbarth 4*

| | | |
|---|---|---|
| Elw trethadwy am 2006-07 – gweler Nodyn 1 | | blwch 3.92 *llai* blwch 3.82<br>**A** £ |
| ***Os ydych wedi eich eithrio am eich bod yn ymddiriedolwr, neu'n blymiwr neu'n goruchwyliwr plymio: copïwch flwch A i flwch 3.96 ac anwybyddwch flychau B i E*** | | |
| Incwm y gwnaethoch ennill fel cyflogai – gweler Nodyn 2 | | **B** £ |
| ***Os oes gennych P60 sy'n dangos y talwyd cyfraniadau YG a chynhwyswyd yr incwm hwn yn eich elw am y flwyddyn, nodwch swm yr enillion hyn ym mlwch B*** | | |
| Unrhyw golledion ac ati a gododd cyn 2006-07 – gweler Nodyn 3 | | **C** £ |
| blwch B + blwch C | | blwch B *plws* blwch C<br>**D** £ |
| Yr isaf o flwch A a blwch D (os yw blwch D yn wag neu sero yna nodwch sero ym mlwch E) | | **E** £<br>*copïwch i flwch 3.96* |

**Nodyn 1**
Ni chaiff naill ai'r **'addasiad' ar sail arian parod** neu'r addasiad ar gyfer cytundebau gwasanaethu (gweler y nodyn ar 'Proffesiynau a galwedigaethau ar 'sail arian parod' neu'r nodyn ar 'Newidiadau cyfrifyddu ar gyfer cytundebau gwasanaethu – Materion Brys 'Task Force 40' ar dudalen SEN11) ei ystyried ar gyfer cyfraniadau YG Dosbarth 4, felly tynnwch y swm a nodwyd gennych ym mlwch 3.82 o flwch 3.92.

**Nodyn 2**
Os ydych wedi cynnwys swm, a enillwyd gennych fel cyflogai neu ddeiliad swydd wrth gyfrifo'r elw trethadwy ym mlwch A uchod, dylech nodi'r swm hwnnw ym mlwch B. Mae cyfraniadau Dosbarth 1 yn daladwy ar enillion o swydd neu gyflogaeth.

**Nodyn 3**
(i) Gallwch ddwyn ymlaen o 2005-06 a blynyddoedd cynharach **golledion masnachu** o'r un busnes os nad ydynt wedi eu gosod yn erbyn elw y codir cyfraniadau YG Dosbarth 4 arnynt, er mwyn eu gosod yn erbyn elw'r busnes hwn at ddibenion Dosbarth 4 2006-07. (Mae hyn oherwydd y caiff colledion sy'n ganiatáol at ddibenion treth eu trin fel colledion sy'n codi yn ogystal at ddibenion Cyfraniadau YG Dosbarth 4. Gellir eu caniatáu at ddibenion Dosbarth 4 yn yr un modd ag y caniateir colledion at ddibenion treth).

Nid yw colledion sy'n codi o Osodiadau Gwyliau wedi'u dodrefu yn ganiatáol at ddibenion cyfraniadau YG Dosbarth 4.

(ii) Gellir didynnu **llog** wrth gyfrifo elw Dosbarth 4 os talwyd ef at ddibenion eich busnes ond nas didwynnwyd wrth gyfrifo'ch elw trethadwy. Dylech gynnwys

– unrhyw log o'r fath o 2005-06 a blynyddoedd cynharach nas gosodwyd yn erbyn elw Dosbarth 4

– unrhyw log o'r fath a dalwyd yn 2006-07.

## *Isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu*

**blwch 3.97** Os ydych yn isgontractiwr yn y diwydiant adeiladu, gallech fod wedi derbyn rhai taliadau o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu. Os ydych, nodwch gyfanswm y didyniadau a wnaed ar gyfer treth o'r taliadau a gawsoch yn ystod y cyfnod 6 Ebrill 2006 i 5 Ebrill 2007 ym mlwch 3.97.

Dylai'r didyniadau treth gael eu dangos ar Dalebau CIS25 y dylech fod wedi eu derbyn gan y contractwyr y buoch yn gweithio iddynt.

**Dychwelwch y ffurflenni hyn gyda'ch Ffurflen Dreth.** Os na gawsoch CIS25, gofynnwch i'r contractwyr y buoch yn gweithio iddynt i'w darparu. Os na allwch gael CIS25, rhowch y manylion canlynol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 ar Dudalen SE4:

- enw a chyfeiriad y contractwr
- y mis y cawsoch y taliad(au)
- swm y taliad gros
- swm y dreth a ddidynnwyd.

Os rhoddwyd CIS25 i chi, ond rydych wedi colli eich copi, gofynnwch i'r contractwr am lungopi o'u copi o'r CIS25, ac anfonwch hwnnw gyda'ch Ffurflen Dreth.

Hyd yn oed os ydych eisoes wedi gwneud cais am ad-daliadau o ddidyniadau CIS25 yn ystod y flwyddyn, dylech ddal i nodi cyfanswm y didyniadau CIS25 ar gyfer y flwyddyn ym mlwch 3.97 ac anfon unrhyw CIS25 sydd heb eu cyflwyno am 2006-07 gyda'ch Ffurflen Dreth. Nodwch ym mlwch 20.1, ar dudalen 9 eich Ffurflen Dreth, swm unrhyw ad-daliad o ddidyniadau CIS25, neu unrhyw ddidyniadau CIS25 a osodwyd yn erbyn rhwymedigaethau eraill.

## *Treth a ddidynnwyd o Incwm Masnachu*

**blychau 3.98** Ym mlwch 3.98 nodwch unrhyw dreth a ddidynnwyd o incwm masnachu er enghraifft breindaliadau rhwng 6 Ebrill 2006 a 5 Ebrill 2007 ac eithrio didyniadau a wnaed gan gontractwyr ar gyfer treth.

Fel arfer ni ddylai treth a ddidynnwyd o dan TWE gael ei chynnwys yma (dylai gael ei chynnwys ar eich Tudalennau Cyflogaeth) ond os didynnwyd TWE o unrhyw incwm a gynhwyswyd yn eich ffigur trosiant, dylech gysylltu â ni cyn cwblhau blwch 3.98.

## *Crynodeb o'r fantolen*

**blychau 3.99 i 3.115** Os oes gennych gyfrifon, ac os ydynt yn cynnwys mantolen, copïwch y ffigurau i'r blychau priodol. Os nad oes gennych fantolen, neu os oedd eich trosiant yn llai na £15,000, gadewch y blychau hyn y wag.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi trosglwyddo'r holl ffigurau o'ch mantolen i'r crynodeb, a bod pob un yn cael ei gynnwys **unwaith** yn unig. Peidiwch â chynnwys unrhyw ffigurau nad ydynt yn ymddangos yn eich mantolen.

Dylech arfer synnwyr cyffredin wrth drosglwyddo'r ffigurau o'ch cyfrifon i'r blychau mwyaf priodol. Yn dibynnu ar amgylchiadau eich busnes, gall rhai elfennau yn y fantolen ymddangos naill ai fel asedion neu fel rhwymedigaethau. Er enghraifft, bydd cyfrif banc gydag arian y busnes ynddo yn ased tra y bydd cyfrif a orgodwyd yn rhwymedigaeth. Ar gyfer yr un cyntaf, nodwch y gweddill ym mlwch 3.103. Ar gyfer yr ail un, nodwch y gweddill ym mlwch 3.107.

Caiff gweddillion Cyfrif Cyfalaf ac elw neu golled net yn aml eu heffeithio yn y ffordd hon. **Pan fydd gweddill ar y Cyfrif Cyfalaf wedi'i orgodi, neu os gwnaeth y busnes golled net yn y flwyddyn, dylech nodi'r swm mewn cromfachau.**

Dylai ffigur yr elw neu'r golled net sy'n ymddangos yn eich mantolen fod yr un peth â'r un a nodwyd ym mlwch 3.65 ar gyfer yr un cyfnod.

Dylai'r ffigur ar gyfer asedion busnes net (blwch 3.110) fod yr un peth â'r ffigur ar gyfer gweddill eich Cyfrif Cyfalaf ar ddiwedd y cyfnod (blwch 3.115).

## *Masnachau arbennig ac ati*

### *Ffermwyr a garddwyr masnachol*

Bydd angen *Taflen Gymorth IR224: Farmers and market gardeners* arnoch o'r Llinell Archebu sy'n esbonio:

- y rheolau arbennig ar gyfer cyfartalu elw dros ddwy flynedd mewn rhai amgylchiadau
- y sail gyr ar gyfer cyfrifo elw y gellir ei defnyddio gan ffermwyr anifeiliaid cynhyrchu
- lwfansau cyfalaf ar adeiladau a gweithfeydd amaethyddol.

Esbonnir y dulliau prisio stoc fferm sy'n dderbyniol i ni yn *Nhaflen Gymorth IR232: Farm stock valuation.*

### *Gofalwyr maeth a gofalwyr oedolion*

**Gofalwyr maeth** Dechreuodd cynllun eithrio newydd ar gyfer gofalwyr maeth ar 6 Ebrill 2003. Mae *Taflen Gymorth IR236: Foster carers and adult placement carers*, ar gael o'r Llinell Archebu ac mae hon yn esbonio sut mae'r cynllun eithrio yn gweithio. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar sut i gwblhau'r blychau ar eich Ffurflen Dreth.

**Gofalwyr Oedolion** Dechreuodd trefniadau newydd symlach ar gyfer gofalwyr oedolion ar 6 Ebrill 2003. Mae *Taflen Gymorth IR236: Foster carers and adult placement carers*, ar gael o'r Llinell Archebu ac mae'n esbonio'r trefniadau symlach. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar sut i gwblhau'r blychau ar eich Ffurflen Dreth.

### *Proffesiynau a galwedigaethau ar sail 'arian parod'*

Os ydych yn cyflawni proffesiwn neu alwedigaeth efallai y byddwch wedi defnyddio sail 'arian parod' neu 'gonfensiynol' i gyfrifo eich elw yn y gorffennol. Ar wahân i rai bargyfreithwyr ac eiriolwyr (gweler isod) ni allwch wneud hyn bellach.

Bu rhaid cyfrifo 'addasiad arbennig' ar ddiwrnod cyntaf eich cyfrif cyntaf a ddaeth i ben ar ôl 6 Ebrill 1999.

Pan oedd hwn yn swm positif a pharatowyd eich cyfrifon hyd at ddyddiad heb law 5 Ebrill 2000, yna codir treth ar yr addasiad fesul rhandaliadau, y cyntaf yn y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000, ac am y naw mlynedd sy'n dilyn.

Pan oedd hwn yn swm positif a pharatowyd y cyfrif hwnnw hyd at 5 Ebrill 2000, yna codir treth arno fesul rhandaliadau, y cyntaf yn y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2001, ac am y naw mlynedd sy'n dilyn.

Nodwch y swm trethadwy eleni ym mlwch 3.82.

### *Newidiadau cyfrifyddu ar gyfer cytundebau gwasanaethu – Materion Brys Task Force Abstract 40 (UITF 40)*

Os ydych yn cyflawni masnach, proffesiwn neu alwedigaethau eraill a chawsoch incwm o gytundebau am wasanaethau proffesiynol neu wasanaethau eraill, yna bydd yn rhaid i chi newid eich dull ar gyfer cyfrifo trosiant yn eich cyfrifon. Mae hyn oherwydd y bu newid yn yr arweiniad cyfrifyddu ar gytundebau gwasanaethu am gyfnodau cyfrifyddu a ddaeth i ben ar neu ar ôl 22 Mehefin 2005. Gelwir yr arweiniad newydd a gyhoeddwyd gan yr Accounting Standards Board yn 'Urgent Issues Task Force Abstract 40 (UITF 40)'.

Os yw'r arweiniad newydd yn gymwys i chi efallai y bydd angen i chi hefyd gynnwys addasiad treth yn y Ffurflen Dreth hon.

Mae *Taflen Gymorth IR238: Revenue recognition in service contracts UITF 40*, yn sôn fwy wrthych am yr arweiniad cyfrifyddu newydd, pan fo'n effeithio ar eich treth a sut i gyfrifo unrhyw addasiad treth.

Pan fyddwch wedi darllen y Daflen Gymorth ac wedi cyfrifo swm yr addasiad y codir treth arno y flwyddyn hon, nodwch ef ym mlwch 3.82. Os oeddech ar 'sail arian parod' cyn hynny (gweler uchod), dylech hefyd nodi'r addasiad ar gyfer y cytundeb gwasanaethu yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 3.116 yn ogystal â'r rhandaliad ar gyfer y sail arian parod.

### *Bargyfreithwyr ac eiriolwyr ym mlynyddoedd cyntaf eu galwedigaeth*

Os ydych yn fargyfreithiwr (eiriolwr yn yr Alban) sy'n dechrau ymarfer y gyfraith gallwch gyfrifo eich elw ar sail arian parod, neu ar sail y nodiadau ffioedd a gyflwynwyd. Pa sail bynnag a ddewiswch mae'n rhaid i chi lynu ati nes y byddwch yn newid i sail 'barn wir a theg'. Gallwch barhau i ddefnyddio sail o'r fath ar gyfer unrhyw gyfnod cyfrifo sy'n dod i ben **erbyn saith mlynedd wedi'r dyddiad y dechreuasoch ymarfer y gyfraith fan bellaf** (hynny yw, y dyddiad roeddech ar gael gyntaf i ymarfer y gyfraith ar gyfer gwaith sy'n ennill ffi). Bydd y cyfnod o saith mlynedd yn parhau hyd yn oed os cymerwch seibiant rhag ymarfer.

# Nodiadau ar HUNANGYFLOGAETH

Ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo diwethaf pan fydd gennych yr hawl i ddefnyddio sail arian parod neu sail nodiadau ffi a gyflwynwyd mae'n rhaid i chi gyfrifo'r 'addasiad' fel y disgrifiwyd uchod. Mae'n rhaid i'ch elw ar gyfer yr holl gyfnodau dilynol gael eu cyfrifo ar sail 'barn wir a theg'.

Ceir rhagor o wybodaeth am drethiant bargyfreithwyr ac eiriolwyr mewn nodiadau arweiniad a gyhoeddwyd gan Gyngor y Bar Cymru a Lloegr, Cyfadran yr Eiriolwyr a Llyfrgell Bar Gogledd Iwerddon.

## *Masnachau a galwedigaethau a gyflawnir yn gyfan gwbl dramor*

Os ydych yn cyflawni masnach neu alwedigaeth yn gyfan gwbl dramor bydd angen i chi gwblhau'r Tudalennau hyn o hyd. Ond mewn rhai amgylchiadau efallai mai dim ond ar daliadau a drosglwyddir gennych i'r DU y cewch eich trethu. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am y Tudalennau Di-breswyl ac ati os credwch y gallai'r sail trosglwyddo i'r DU fod yn gymwys i chi. Os ydyw, dim ond y blychau canlynol y bydd angen i chi eu cwblhau, lle bo hynny'n briodol, ar y Tudalennau Hunangyflogaeth (gadewch y gweddill yn wag):

- blychau 3.1 i 3.13
- blychau 3.74 a 3.75
- blwch 3.92
- blwch 3.93, **a**
- ticiwch flwch 3.94.

Os oeddech wedi talu treth dramor ar elw'r fasnach hon ac am wneud cais am gredyd yn erbyn eich rhwymedigaeth treth yn y DU, gofynnwch y Llinell Archebu am y Tudalennau Tramor.

## *Rhestr termau*

**Taliadau mantoli** Tynnu'n ôl peth neu'r cyfan o'r lwfansau cyfalaf a roddwyd yn flaenorol. Maent yn codi pan fydd asedion sefydlog yn peidio â chael eu defnyddio yn eich busnes.

**Cyfnod sail** Y cyfnod a ddefnyddir i ddynodi'r elw trethadwy mewn unrhyw flwyddyn dreth benodol.

**Lwfansau cyfalaf** Lwfansau yn erbyn treth ar gyfer cost rhai asedion sefydlog.

**Lwfansau blwyddyn gyntaf** Lwfans cyfalaf ar gyfradd uwch na'r lwfans ar bapur arferol. Fe'i rhoddir ar gyfer y flwyddyn pan gaiff ased ei gaffael a'i roi yn lle lwfans ar bapur.

**Asedion sefydlog** Asedion fel adeiladau, offer a pheiriannau, cerbydau ac ati a ddefnyddiwch yn y busnes ond nad ydych yn eu prynu a'u gwerthu fel rhan o'ch gweithrediadau masnachu cyffredin. Er enghraifft, os ydych yn blymwr, mae eich fan a'ch offer yn asedion sefydlog ond nid yw eich pibellau, boeleri ac ati (stoc yw'r rhain). Gelwir y gost o brynu asedion sefydlog yn wariant cyfalaf.

**Elw gorgyffwrdd a rhyddhad gorgyffwrdd** Mae elw gorgyffwrdd yn codi pan fydd y cyfnodau sail yn gorgyffwrdd fel bod yr un elw yn drethadwy mewn dwy flwyddyn dreth wahanol. Mae rhyddhad gorgyffwrdd yn didynnu'r elw gorgyffwrdd mewn blwyddyn dreth ddiweddarach fel nad ydych, yn ystod bodolaeth eich busnes, yn talu treth ar fwy o elw nag yr enillwch.

**Stoc** Deunyddiau crai a ddefnyddir yn eich busnes a nwyddau a brynwyd i'w hailwerthu sydd gennych wrth law.

**Masnach** Mae unrhyw weithred fasnachol sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i gwsmer ar gyfer elw yn debygol o gael ei ystyried yn fasnach. Os oes unrhyw amheuaeth gennych a gyflawnwyd masnach, proffesiwn neu alwedigaeth gennych yn ystod 2006-07, dylech ofyn i ni neu ymgynghorydd treth.

**Credydwyr masnach** Arian sydd arnoch i fusnesau eraill am nwyddau neu wasanaethau a gawsoch, ond sy'n parhau heb eu talu ar eich dyddiad cyfrifo.

**Dyledwyr masnach** Arian sy'n ddyledus i chi am nwyddau a werthwyd gennych neu waith a wnaethoch a gynhwyswyd mewn trosiant, ond sy'n parhau heb ei dalu ar y dyddiad cyfrifo.

**Trosiant** yw'r holl arian a enillwyd gan eich busnes cyn didynnu unrhyw dreuliau busnes. Mae'n cynnwys derbyniadau mewn arian parod neu mewn nwyddau am nwyddau a werthwyd neu am waith a wnaed, comisiwn, ffioedd a gewch, cildyrnau, derbyniadau yswiriant ar gyfer stoc a cholledion elw ac ati. Ond nid yw'n cynnwys Lwfans Cychwyn Busnes (a elwir hefyd yn Lwfans Menter) y dylid ei gynnwys ar wahân ym mlwch 3.91. Hefyd, peidiwch â chynnwys symiau a gawsoch drwy werthu eitemau cyfalaf, hynny yw, asedion sydd o ddefnydd parhaol i'r busnes, fel eiddo, offer, peiriannau a cherbydau'r busnes.

Dylai trosiant gael ei gynnwys yn eich cyfrifon pan gaiff ei ennill, hyd yn oed os na chewch yr arian tan yn ddiweddarach. Dylai symiau a enillwyd gennych ond nas derbyniwyd erbyn y dyddiad cyfrifo – eich dyledwyr masnach – gael eu cyfrif fel trosiant. Bydd hyn yn cynnwys nwyddau a ddosbarthwyd erbyn y dyddiad cyfrifo, hyd yn oed os nad oeddech wedi anfon bil erbyn hynny. Ond gwnewch yn siŵr nad ydych yn cyfrif arian a gawsoch ac a gafodd ei gynnwys fel trosiant mewn cyfnod cynharach pan gafodd ei ennill.

**Gwaith ar y gweill** Stoc a gynhyrchwyd yn rhannol sydd gennych wrth law.

*Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.*